Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth

Cyngor Celfyddydau Cymru | Tachwedd 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth

## Pwrpas

Cynorthwyo prosiectau sy'n datblygu sylfeini diwydiant cerddoriaeth llewyrchus yng Nghymru, ac sy'n helpu pobl â dawn gerddorol yng Nghymru i feithrin gyrfaoedd cynaliadwy.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Mae gennym ddiddordeb mewn diwylliant yn ei ystyr ehangaf, a'r rôl greiddiol y mae'n ei chwarae yn ein bywydau pob dydd. Felly rydyn ni am gynorthwyo cerddoriaeth yng Nghymru y tu hwnt i'r genres traddodiadol, fel y repertoire cerddorfaol ac operatig.

Mae angen i'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru dyfu a datblygu. Nid yw'r bobl a oedd yn buddsoddi mewn dawn gerddorol gyfoes yn draddodiadol (y labeli recordio) yn gallu cynnal datblygiad y ddawn mwyach.

Rydyn ni am ddatblygu sector cerddoriaeth cynaliadwy a llewyrchus yng Nghymru trwy fuddsoddi mewn prosiectau a dulliau newydd o weithio sy'n gallu rhoi hwb i yrfaoedd pobl ar adegau allweddol yn eu datblygiad.

Rydyn ni am gynorthwyo bandiau sy'n creu cerddoriaeth wreiddiol ac sydd ar "drobwynt" yn eu gyrfa neu gynorthwyo prosiectau dan arweiniad mentrau neu sefydliadau cerddorol lle mae yna fantais glir i fand neu artist sydd ar "drobwynt".

Wrth "drobwynt" rydyn ni'n golygu eu bod yn barod i dorri drwyddo i'r lefel nesaf yn eu datblygiad gyrfaol.

Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau a fydd yn cryfhau sylfeini'r sector cerddoriaeth yng Nghymru, er enghraifft, trwy ddatblygu a chynnig gwasanaethau newydd i'r sector. Rhaid i'r prosiectau hyn ddangos yn glir sut y byddant yn cael effaith barhaus a chynaliadwy ar y sector cerddoriaeth yng Nghymru.

## Prosiectau na fyddwn yn eu cefnogi

Ni fyddwn yn cynorthwyo:

- Ceisiadau gan fandiau sydd ar gychwyn eu gyrfa (wrth hyn rydyn ni'n golygu artistiaid sydd heb recordio dim, heb hanes o berfformio'n fyw, heb gael unrhyw amser radio, adolygiadau na chymorth gan y diwydiant)

- Ceisiadau gan fandiau neu ar ran bandiau neu artistiaid nad ydynt yn creu cerddoriaeth wreiddiol
- Prosiectau nad ydynt yn dangos sut y byddant yn gwneud newid sylweddol i yrfa'r band / artist ar ôl diwedd y prosiect
- Prosiectau sy'n canolbwyntio'n unswydd ar gyfansoddi a / neu recordio cerddoriaeth
- Prosiectau sy'n canolbwyntio ar deithio'n genedlaethol neu'n rhyngwladol
- Prosiectau sy'n parhau â gweithgarwch sydd eisoes ar y gweill, neu brosiectau sy'n ymwneud â'ch gweithgarwch arferol

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, sef cangen ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn gallu ariannu cyfleoedd i arddangos yn rhyngwladol. Mae rhagor o fanylion, yma.

## Beth fydd ei hangen gennych chi

Rydyn ni wedi ymrwymo i gynorthwyo prosiectau o'r safon uchaf. Byddwn ni am weld eich bod chi wedi cyrraedd y lefel briodol yn eich gyrfa i ni'ch cynorthwyo chi.

Er mwyn dangos hyn, bydd angen i ni weld bod partneriaethau yn bodoli rhyngoch â budd-ddeiliaid priodol, neu eich bod chi wedi cael buddsoddiad neu gefnogaeth gan bobl sy'n gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant cerddoriaeth. Gallai hyn fod gan label, rheolwr, asiant byw, PR, cefnogwr neu gyhoeddwr â phrofiad perthnasol.

Bydd angen i chi ddangos bod y band neu'r artist ar "drobwynt" yn eu gyrfa. Gallwch ddangos hyn trwy'r ffaith:

- Fod eu gwaith wedi cael ei chwarae ar y radio'n ddiweddar a'u bod wedi cael sylw yn y cyfryngau cenedlaethol / cerddoriaeth, a bod ganddynt bresenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol
- Eu bod yn perfformio'n fyw yn gyson mewn canolfannau cydnabyddedig ac mewn gwyliau y tu hwnt i'w milltir sgwâr
- Bod ganddynt sylfaen gadarn o gefnogwyr yn seiliedig ar dystiolaeth o ystadegau'r cyfryngau cymdeithasol
- Eu bod wedi denu buddsoddiad neu gefnogaeth gan bobl broffesiynol o'r diwydiant cerddoriaeth

Bydd angen i'r prosiect ddangos yn glir sut y bydd yn gwneud gwahaniaeth i yrfa'r band neu'r artist o dan sylw. Gallech wneud hyn trwy ymgorffori prosiect datblygu cynulleidfaoedd i gyd-fynd â rhyddhau cerddoriaeth newydd, er enghraifft.

Bydd angen i bob cais am grant mawr gynnwys cynllun datblygu tair blynedd o hyd sy'n rhedeg o ddyddiad dechrau eich prosiect. Dylai hyn gynnwys eich cynlluniau ar gyfer:

- Pennu'r weledigaeth ar gyfer eich rhaglen waith a'i chyflunio, gan gynnwys gosod cerrig milltir allweddol

- Gwireddu eich uchelgeisiau o ran cynaliadwyedd a thwf wrth ddangos hyfywedd ariannol ac amrywio'ch ffrydiau incwm

- Gwerthuso'ch gweithgarwch bob blwyddyn, a defnyddio'r wybodaeth sy'n codi o hyn i fwydo gweithgarwch dilynol

- Meithrin a chynnal eich cynulleidfaoedd neu'ch cyfranogwyr

- Dangos eich effaith tymor hir ar yr economi ac ar y sector yng Nghymru

Mae rhagor o wybodaeth yn ein Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau o dan y maes gwaith Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth, a bydd y rhain yn eich helpu wrth lenwi'ch ffurflen gais.

## Pwy gaiff wneud cais

Caiff bandiau a sefydliadau cynrychioli (fel labeli, cwmnïau rheoli neu gyhoeddwyr) gyflwyno cais..

**Gwnaethom ychydig o newidiadau pwysig o ran y sefydliadau a all ymgeisio am *Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau*. Sicrhewch eich bod yn gymwys i ymgeisio, hyd yn oed os ydych wedi ymgeisio yn y gorffennol.**

Croesawn geisiadau oddi wrth fandiau. Bydd yn rhaid ichi greu cerddoriaeth wreiddiol a bod ar adeg dyngedfennol yn eich gyrfa. Bydd yn rhaid ichi feddu ar gytundeb band ysgrifenedig a chyfrif banc yn enw eich band, gydag o leiaf dau lofnodwr awdurdodedig a chytundeb partneriaeth ysgrifenedig ar waith sy'n disgrifio sut y rhedwch eich band. Disgwyliwn i'r cytundeb hwn fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- trefniadau ariannol eich band
- sut y gwnewch benderfyniadau am eich band
- sut y rheolwch offer y grŵp
- sut y rheolwch newid yn yr aelodaeth a'r hyn sy'n digwydd os ymedy aelod
- yr hyn sy'n digwydd os penderfynwch ddiddymu'r band

- sut y rheolwch berchnogaeth recordiadau, hawlfraint gyhoeddi ac incwm y grŵp

Darllenwch ragor am gytundebau partneriaeth band yn ein Nodiadau Cymorth.

Os ydych chi'n sefydliad cynrychioli a'ch bod am gyflwyno cais ar ran artist neu fand, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod cytundeb partneriaeth yn bodoli rhwng pawb o dan sylw.

Os artist solo ydych chi, rhaid i chi wneud cais trwy'r maes gwaith Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth ar gyfer unigolion creadigol proffesiynol. Mae rhagor o wybodaeth yma.

## Y Cyllid sydd ar Gael

Gallwch ymgeisio am hyd at 75% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Gallwch gyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 a £30,000

## Pryd cewch wneud cais

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl.

### Grantiau Bach

Gallwch wneud cais am grant bach unrhyw bryd, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf chwech wythnos gwaith rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23ain Ionawr 2019
- 5pm Dydd Mercher 8fed Mai 2019

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf naw wythnos gwaith rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pam rydych am ddechrau eich prosiect.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Gallwch ddal un "grant byw" o *Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Sefydliadau* mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd cyllid gennym ac sy'n dal i fod ar waith.

Cofiwch fod hyn yn golygu *Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Sefydliadau* yn gyffredinol, ac nid y meysydd unigol.

Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis. Er enghraifft, os cawsoch gyllid ar gyfer prosiect a gychwynnodd ar 1 Medi 2017, a'ch bod am gyflwyno cais arall, yna rhaid iddo fod am weithgaredd a fydd yn dechrau deuddeg mis yn ddiweddarach, hynny yw, ar 1 Medi 2018 neu'n ddiweddarach. Mae'n bwysig cofio y cewch gyflwyno'r cais cyn diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis, ond ni allwch gynllunio bod eich gweithgaredd yn cychwyn nes bod blwyddyn wedi mynd heibio.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth:

- Nodiadau Cymorth ar gyfer Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth
- Taflen Wybodaeth: Llywodraethu

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru